



Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

COFNODION CYFARFOD Y BWRDD 22 Mehefin 2017 Swyddfa Gofal Cymdeithasol Cymru, Caerdydd 11:15 – 14:00

Presennol:

Aelodau'r Bwrdd:

Arwel Ellis Owen (Cadeirydd)
Damian Bridgeman
Emma Britton
Simon Burch
Carl Cooper
Abigail Harris
Kate Hawkins
Rhian Watcyn Jones
Joanne Kember
Peter Max
Jane Moore
Grace Quantock
Aled Roberts

Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Swyddog Gweithredol)
Gerry Evans (Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth)
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)
Joanne Oak (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth)
Kate Salter (Rheolwr Llywodraethu, Strategaeth a Rheoli Perfformiad)
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cyllid a TGCh)
Laura Pinney (Cofnodion)

Yn bresennol:

Andrea Giordano, Diprwy Gyfarwyddwr,
Yr Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

1. Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

- i. Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd, a diolchodd i'r aelodau am eu diddordeb a'u brwdfrydedd yn ystod y Pwyllgor Risg ac Archwilio a gynhaliwyd yn gynharach. Atgoffwyd yr Aelodau i ddileu gwybodaeth y Pwyllgor o'u dyfeisiau er mwyn sicrhau arferion diogelu gwybodaerth da.
- ii. Clywodd yr Aelodau fod Llinos Bradbury, Uwchswyddog Llywodraethu, wedi cael bachgen bach ddydd Gwener, 9 pwys 8 owns, a bod y fam a'r bychan yn gwneud yn dda. Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion ddymuno'r gorau i Llinos a'i theulu.

2. Ymddiheuriadau a datgan buddiannau

- i. Cafwyd ymddiheuriad gan Donna Hutton.

- ii. Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant. Nododd y Cadeirydd y gallai achos o wrthdaro buddiannau godi ymhlith nifer o aelodau'r Bwrdd yn ystod eitem 5 ar yr agenda heddiw, ac y gallai fod angen i'r aelodau hynny adael yn ystod unrhyw broses benderfyniadau.

3. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Mai 2017

- i. Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion yn codi

- i. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y materion a drafodwyd yng nghyfarfod diwetha'r Bwrdd.
- ii. Eitem 5 – mae'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i ddiwygio fel ar yr argymhellwyd ac i'w weld ar y wefan er mwyn derbyn sylwadau pellach tan ddiwedd y mis. Os na fydd newidiadau sylweddol yn dod i law wedi'r cyfnod hwn, bydd y ddogfen yn cael ei chyfieithu a'i hychwanegu at adran Llawlyfr yr Aelodau ar y wefan.
- iii. Eitem 6 – mae'r ymgynghoriad ar y cynllun strategol wedi'i lansio heddiw, a bydd yn para am wyth wythnos. Gall aelodau weld y ddogfen ymgynghori drwy'r ddolen ar y wefan, ac fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau – er hynny, pwysleisiodd y Cadeirydd y dylai'r aelodau roi copi o'u sylwadau i'r Cadeirydd er cwртеisi.
- iv. Eitem 7 – mae copi o'r llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru wedi cyrraedd, ac mae swyddogion wedi cadarnhau nad yw'n cynnwys unrhyw beth annisgwyl.
- v. Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd unrhyw faterion eraill yn codi o'r cofnodion.

5. Ymgynghoriad ar faterion rheoleiddio

- i. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a chyfeiriodd at sesiwn seminar ddoe a roddodd wybodaeth gefndir am ffioedd cofrestru. Atgoffwyd yr Aelodau nad yw'r ffioedd wedi'u codi ers 2003 ac nad ydynt yn cyd-fynd â rhai rheoleiddwyr eraill y DU bellach. Cydnabuwyd effaith codi ffioedd ar y sector yn ogystal â'r enw drwg posib i'r sefydliad, pe bai'r penderfyniad yn cael ei ystyried heb ei gyd-destun.
- ii. Hefyd, nododd y Cadeirydd deimladau cryf y Bwrdd fod cofrestru'r gweithlu yn rhan hollbwysig o broffesiynoldeb y sector a bod rheoleiddio wedi helpu i godi safonau'r sector gofal cymdeithasol a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ar y cyfan. Atgoffwyd yr Aelodau y dylai eu penderfyniad ystyried beth mae'r sector ei angen ar gyfer y dyfodol yn ogystal â chydabod heriau'r presennol.

- iii. Cyflwynodd Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth, y ddogfen ymgynghori i'r Bwrdd a thynnu sylw at y ffaith ei fod yn ymdrin â phedwar maes:
- Lefelau'r ffioedd ar gyfer yr holl grwpiau cofrestru presennol a phosib
 - Gofynion cymwysterau ar gyfer gweithwyr gofal cartref
 - Adolygiadau i'r codau ymarfer cyfredol ar gyfer cyflogwyr
 - Mân newidiadau i'n rheolau Addasrwydd i Ymarfer cyfredol.
- iv. Rhoddodd Gerry Evans gyd-destun pellach i'r ymgynghoriad a'r sail resymegol dros rai o'r newidiadau arfaethedig. Nododd yr Aelodau fod y Gofrestr wedi ehangu'n raddol ers ei sefydlu yn 2003, i gynnwys grŵp ehangach o weithwyr gofal cymdeithasol a bod rheoleiddio'n cael ei ystyried yn gyffredinol fel ffordd allweddol o wella ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu yma yng Nghymru. Hefyd, nododd yr Aelodau fod cefnogaeth gref ar y cyfan i gofrestru gweithwyr cartref a gweithwyr cartrefi gofal oedolion, ond y byddai nodi ac ymgysylltu â'r gweithlu yn dipyn o her.
- v. Cyfeiriodd Gerry Evans at adroddiad ar y gwasanaeth gofal cartref yng Nghymru a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), oedd yn pwysleisio bod gofal o'r radd flaenaf yn cael ei ddarparu ond bod llawer o bwysau ar weithwyr. Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod angen ystyried yr angen cynyddol i ddarparu gofal iechyd yng nghartrefi pobl fel rhan o'u cynllun gofal cymdeithasol, a sut y gellir gwneud hyn yn ddiogel.
- vi. Roedd y Bwrdd yn cydnabod mai bwriad yr Ymgynghoriad oedd cyfleu ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ym maes gofal cymdeithasol heddiw, yn ogystal â bod yn flaengar o ran uchelgais i wella ansawdd y gofal a ddarperir gan y sector gan i ddiwalluangenion y dyfodol. Nododd yr Aelodau nad yw'r tâl cofrestru ar gyfer cofrestryddion cyfredol wedi newid ers 2003, a'i fod yn sylweddol is o gymharu â rheoleiddwyr eraill y DU. Cydnabuwyd bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ac Iechyd y Cyhoedd (y Gweinidog) yn awyddus i ddatrys hyn.
- vii. Cyflwynwyd y cynnig i gynyddu'r ffi gerbron yr Aelodau i gael eu sylwadau nhw, gyda Gerry Evans yn crynhoi sail y cyfrifiadau:
- Mae costau gwirio pa mor addas yw gweithwyr cymdeithasol sydd heb gymhwyso yn y DU yn sylweddol, ac mae'r broses bresennol yn gwneud colled. Gan ei fod gryn dipyn yn is na rheoleiddwyr gofal cymdeithasol eraill y DU, mae nifer anghymesur o bobl yn gwneud cais trwy Gofal Cymdeithasol Cymru.
 - Dylai lefel y ffi fod yn gymesur â'r lefelau cyflog cyfartalog. Mae'r ymgynghoriad yn holi a yw dosbarthiad lefel y ffi yn deg, nid y ffi ei hun.
 - Rhaid i rheoleiddio fod yn gymesur ac yn gynaliadwy, ac felly mae ffi yn elfen anorfod.
 - Byddai cynyddu'r ffioedd, dros bedair blynedd o bosib, yn golygu ein bod ni'n gyson â rheoleiddwyr eraill y DU.

- Rydym yn cydnabod na fydd unrhyw gynnydd yn boblogaidd; fodd bynnag, mae'n rhesymol o gymharu â rhannau eraill o'r DU, ac mae'n dal i ddiybnu ar gymhorthdal sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Math o ffi	Y ffi ar hyn o bryd	Ffi newydd arfaethedig			
		Blwyddyn 1	BI 2	BI 3	BI 4
Gweithiwr cymdeithasol (cais, adnewyddu a blynyddol)	£30	£50	£60	£70	£80
Gweithiwr cymdeithasol – heb gymhwyso yn y DU (cais)	£125	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf gallu os yw'r ceisydd yn gofyn am hynny)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf gallu os yw'r ceisydd yn gofyn am hynny)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf gallu os yw'r ceisydd yn gofyn am hynny)	£350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf gallu os yw'r ceisydd yn gofyn am hynny)
Rheolwr Gofal Cymdeithasol (cais, adnewyddu, blynyddol)	£30	£50	£60	£70	£80
Gweithiwr Gwaith Cymdeithasol (cais, adnewyddu, blynyddol)	£10	£20	£25	£30	£35
Myfyriwr Gwaith Cymdeithasol (cais a blynyddol)	£10	£15	£15	£15	£15
Dychwelyd i Ymarfer	£125	£200	£200	£200	£200

- ix. Trafododd yr Aelodau'r cynnig, a gwnaed y sylwadau canlynol:
- Nid yw'r ddogfen yn cyfleu'r bwriad cadarnhaol y tu ôl i reoleiddio o reidrwydd na'r sail resymegol dros gynyddu'r ffi: argymhellwyd y dylai'r dudalen gyflwyno esbonio rôl Gofal Cymdeithasol Cymru a phwysleisio'r uchelgais i wella safonau, rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a chynyddu proffesiynoldeb, fel bod gofal cymdeithasol yn cael ei hyrwyddo fel dewis gyrfu cadarnhaol.
 - Mae codi ffioedd yn debygol o gael ei weld fel 'cam' negyddol wrth geisio hyrwyddo ein rôl fel sefydliad newydd. Bydd angen i'r Bwrdd a'r tîm Gweithredol fod yn barod i ateb cwestiynau am gyllid Cymorth Grant o

gymharu â chyllid trwy reoleiddio h.y. sut bydd y ffi cofrestru'n cael ei wario.

- Dylid defnyddio dulliau ymgysylltu eraill i hyrwyddo'r ddogfen ymgynghori'n eang a sicrhau dealltwriaeth well o'r gweithlu. Rhaid i'r broses ymgynghori fod yn un ystyrlon ac nid yn rhywbeth a wneir mewn enw'n unig, felly dylai'r cynllun cyfathrebu fod yn ddigon clir i reoli disgwyliadau'r sector.
 - Mae angen diwygio cydbwysedd y geiriad ar dudalen 16 gan nad yw mor syml ag awgrymu bod Llywodraeth Cymru'n cynyddu ein cymhorthdal.
 - Er bod safbwyntiau gweithlu'r sector yn hanfodol, dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddiben a manteision rheoleiddio i'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.
 - Dylid ystyried sut mae cyflogwyr yn cynllunio eu cyllidebau ac a fydd unrhyw gynnydd fesul cam mewn ffioedd yn digwydd y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o bedair blynedd a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori.
 - Mae'n bosib bod y gweithlu sydd wedi cofrestru'n barod yn disgwyl cynnydd mewn ffioedd, ac er na chaiff fawr o groeso o reidrwydd, mae'n bwysig bod yn eglur ynghylch y ffigwr terfynol. Rydym yn cytuno y dylai adlewyrchu'r lefelau cyflogau cyfartalog, ond mae angen cofio nad yw pob gweithiwr yn yr un rôl yn derbyn yr un cyflog.
 - Mae'r costau ar gyfer ymarferwyr sydd heb gymhwyso yn y DU yn rhesymol tu hwnt o gymharu â gwledydd eraill y DU a thramor.
- x. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ychwanegol a chadarnhau'r canlynol: bod y cynnydd arfaethedig yn y ffi a'r gofynion cyllido er mwyn ehangu'r Gofrestr wedi'u costio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru pan oedd y ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu; bod rhywfaint o ymgynghoriad cychwynnol wedi bod gyda gweithwyr gofal ynglŷn â chost cofrestru ond heb ffigurau penodol, a bod yr angen am ffi wedi'i gydnabod; y bydd rhywfaint o arbedion i reolwyr ar y Gofrestr gan na fydd angen iddynt gofrestru gyda AGGCC yn ogystal â Gofal Cymdeithasol Cymru mwyach; ac er mai proses statudol yw'r ymgynghoriad sydd felly'n gorfod dilyn fformat penodol, bydd yn cael ei ategu gan weithgareddau eraill a chynllun ymgysylltu.
- Oherwydd gwrthdaro buddiannau posib, gadawodd Peter Max, Emma Britton and Jane Moore yr ystafell cyn i'r Bwrdd benderfynu cytuno ar lefel y ffi a gynigir yn y ddogfen ymgynghori.***
- xi. Amlinellodd Gerry Evans y cynigion yn ymwneud â'r gofynion cymhwyso ar gyfer gweithwyr gofal cartref sy'n cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a thynnodd sylw ar hyn yn seiliedig ar ofynion cyfredol; mae disgwyl y bydd pobl yn dilyn

proses ymsefydlu fel rhan o'u rôl ochr yn ochr â dyfarniad achrededig. Dyma fydd sail eu cofrestriad, ac mae disgwyl iddynt ennill cymhwyster ar gyfer eu rôl o fewn tair blynedd cyntaf y cofrestriad hefyd.

- xii. Dywedodd Sarah McCarty fod o leiaf 50% o'r gweithlu gofal cartref yn bodloni'r gofyniad cymhwyster llawn eisoes, a bydd y broses arfaethedig yn rhoi tair blynedd i weddill y gweithlu ennill y cymhwyster angenrheidiol, fel nad yw'r gofyniad yn cael ei ystyried yn feichus. Clywodd yr Aelodau fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru a phartneriaid eraill i ddiwygio cymwysterau'r sector; o 2019 ymlaen, bydd y gofyniad dyfarniad cychwynnol ar gyfer cofrestru yn cyfrif tuag at eu cymwysterau cyffredinol. Hefyd, bydd gan weithwyr chwe mis i ymuno â'r gofrestr unwaith maen nhw'n dechrau gweithio.
- xiii. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Cymwysterau Cymru, fel y rheoleiddiwr cymwysterau yng Nghymru, wedi ystyried cymwysterau'r gweithlu gofal fel rhan o'r adolygiad cyntaf i'w gynnal ers derbyn eu cylch gwaith. Cafodd yr Aelodau wybod y bydd nifer y cymwysterau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr gofal cartref yn cael eu symleiddio'n sylweddol erbyn 2019. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i weithwyr gofal a'u cyflogwyr gael y cymwysterau cywir ar gyfer y rôl.
- xiv. Holodd yr aelodau am y gofynion yn Lloegr, o safbwynt gweithwyr trawsffiniol a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau. Cadarnhaodd y swyddogion bod gofyniad i gael tystysgrif gofal yn Lloegr, a'i bod yn debyg i'n proses ymsefydlu ni, felly gallai fod rhywfaint o ofynion cyfatebol, fodd bynnag nid yw Lloegr yn cofrestru gweithwyr gofal ar hyn o bryd.
- xv. Argymhellodd un Aelod bod angen rhagor o eglurder yn y ddogfen ymgynghori am y gofynion cymwysterau cyfredol mewn perthynas â'r cyfeiriadau at y Fframwaith Cymwysterau, gan fod mwy nag un adran yn cyfeirio at weithwyr gofal cartref.
- xvi. Er mwyn paratoi'r sector ar gyfer gofynion y dyfodol, roedd y Bwrdd yn cydnabod bod angen i ni gario pobl gyda ni a nododd y bydd disgwyl i gyflogwyr gyhoeddi lefelau cymwysterau eu staff. Tra bod y gofyniad cofrestru yn gymharol isel o hyd, mae ar waith ers cryn amser ac yn cynnig amddiffyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr sy'n wynebu disgwyliadau i wneud tasgau gynyddol gymhleth.
- xvii. Cafodd y Bwrdd grynodedb o'r adolygiad o'r cod ymarfer i gyflogwyr sy'n ymgorffori'r newidiadau a gafodd eu llywio gan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Dywedodd Gerry Evans tra bod y cod cyflogwyr wedi bodoli erioed, nad oedd unrhyw fecanweithiau clir y gellid eu defnyddio i'w orfodi. Fodd bynnag, mae darpariaethau yn y Ddeddf newydd a rheoliadau'r gwasanaeth yn galluogi AGGCC i gymryd camau yn erbyn cyflogwyr am beidio â dilyn y cod ymarfer da ar gyfer unigolion gwaith cymdeithasol. Argymhellodd yr Aelodau y

dylid cryfhau'r cyfeiriadau at unigolion cyfrifol ac egluro'r ddyletswydd ar asiantaethau sy'n gweithredu fel cyflogwyr gofal cymdeithasol.

- xviii. Cafodd yr Aelodau drosolwg o'r mân newidiadau technegol i'r rheolau Addasrwydd i Ymarfer a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, gan nodi bod gennym bwerau dan y Ddeddf newydd i gyflwyno rhai achosion o euogfarnau'n uniongyrchol i wrandawriad, ond ni esboniwyd hynny'n ddigon da yn y rheolau. Hefyd, bydd y newidiadau arfaethedig yn egluro sut y byddwn yn defnyddio'r pwerau newydd dan y Ddeddf i alw tystion. Crynhodd Gerry Evans y cyfan trwy ddweud er mai mân newidiadau i'r Rheolau yw'r rhain; mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid eu hymgorffori trwy broses ymgynghori.
- xix. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu sylwadau cyn crynhoi'r argymhellion, yn bennaf yr angen am gynllun cyfathrebu manwl i lansio a hyrwyddo'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, yn enwedig y strwythur ffioedd arfaethedig.
- xx. Cytunodd yr Aelodau y dylid diwygio'r ymgynghoriad fel yr argymhellwyd, a'i ddwyn gerbron cyfarfod mis Gorffennaf o'r Bwrdd i'w drafod ymhellach a'i gymeradwyo'n derfynol.

6. Cylch Gwaith Drafft: Pwyllgor Archwilio a Risg

- i. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a nododd fod gan y Bwrdd yr awdurdod i gymeradwyo'r Cylch Gwaith, gan roi ystyriaeth i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- ii. Rhoddodd Jo Oak grynodedeb o'r trafodaethau gan ddweud bod angen i'r Bwrdd fod yn hapus gyda'r cyfrifoldebau y mae'n eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y Cylch Gwaith yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar ddau newid: 1) egluro mai dim ond un aelod annibynnol fydd yn rhan o gworwm y Pwyllgor; a 2) bod cofnodion ar gael i'r Bwrdd.
- iii. Nododd yr Aelodau y bydd atodlen o'r prif benderfyniadau yn cael ei chynnwys ar gyfer aelodau'r Pwyllgor, a bod Cadeiryddion y Pwyllgorau yn darparu crynodeb llafar o'r prif bwyntiau i'r Bwrdd cyn hynny.
- iv. Fe wnaeth yr Aelodau **ystyried** a **chymeradwyo'r** Cylch Gwaith.

7. Cofrestr Risg – Crynodeb o'r Gweithdy

- i. Soniodd Jo Oak am y gweithdy rheoli risg a gynhaliwyd yn y seminar ddoe, gan nodi rhai o'r risgiau allweddol a gododd o'n nodau a'n amcanion strategol yn ymwneud â darparu hyder i'r cyhoedd, datblygu'r gweithlu ac arwain gwelliannau i wasanaethau.

- ii. Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod trafodaethau ar y ffordd orau o gyflwyno'r risgiau i'r Bwrdd yn cael eu cynnal gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ond y byddai risgiau strategol yn cael eu cynnwys fel rhan o adroddiadau cynnydd y cynllun busnes.
- iii. Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd ymgysylltu, yn enwedig o ran ehangu'r gofrestr a natur fregus y sector, ac argymhell trin a thrafod y risgiau'n fanylach ar lefel Pwyllgor.

8. Negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr

- i. Cyflwynodd Sue Evans drosolwg o'i phresenoldeb yng nghynhadledd sefydlog BASW UK ar gyfer gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol a phwysleisio'r nodweddion cyffelyb rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU. Nododd yr Aelodau ein bod ni, fel sefydliad, yn weithgar iawn yn trafod materion â gwledydd eraill y DU ac yn ceisio cynnal cysondeb a rhannu gwybodaeth am y ffordd rydyn ni'n cefnogi gwaith a gofal cymdeithasol, er gwaetha'r strwythurau gwleidyddol gwahanol.
- ii. Clywodd y Bwrdd fod Cynhadledd Sefydlog y DU yn ystyried cyfleoedd i hybu gwaith cymdeithasol fel proffesiwn a chodi proffil gofal cymdeithasol, gan archwilio sut y gallwn ni fabwysiadu arferion da gan wledydd eraill y DU.
- iii. Hefyd, cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad seneddol o ofal cymdeithasol a sesiwn yr is-grŵp gofal cymdeithasol er mwyn ystyried y negeseuon allweddol yr hoffem eu cynnwys yn yr adroddiad interim a gaiff ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf. Dywedodd Sue Evans bod teimlad cryf y dylai'r adroddiad gynnig dulliau o wella pethau.
- iv. Cafwyd diweddariad gan Sue Evans hefyd am drefniadau gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i weithio fel un gwasanaeth cyhoeddus lle gallwn ni, tra'n diffinio ein dyletswyddau gwahanol. Nododd yr Aelodau'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng Prif Weithredwyr y ddau gorff rheoleiddio, gyda diweddariad am y cynnydd ar fynd i'r afael â'r rhwystrau i rannu gwybodaeth ar achosion Addasrwydd i Ymarfer sydd ar y gweill yn y tymor byr.
- v. Clywodd yr Aelodau y bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan mewn adolygiad gan Lywodraeth Cymru ar drefniadau llywodraethu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a'r berthynas ag isadrannau noddi. Bydd y Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw argymhellion.
- vi. Cafodd yr Aelodau ddiweddariad gan Sarah McCarty am waith y gyfarwyddiaeth datblygu a gwella'r sector. Roedd yr adolygiad o'r fframwaith sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i fynd rhagddo, gyda digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal yn y Canolbarth ac arolwg ar-lein ar gael er mwyn casglu

barn o bob cwr o Gymru. Nododd yr Aelodau'r newid arfaethedig yn nheitl y fframwaith sefydlu gofal cymdeithasol i gynnwys 'iechyd'.

- vii. Mae'r adolygiad o gymwysterau'r sector ar waith o hyd gyda Cymwysterau Cymru. Nododd yr Aelodau y cyfle i'r prosiect hwn wella cymwysterau ar gyfer y sector a dangos ei fod yn ymateb i'w ofynion trwy ymgorffori cynnwys penodol e.e. cefnogi unigolion ag awtistiaeth. Mae'r prosiect wedi meithrin cysylltiadau â grwpiau arbenigol y sector fel bo'r angen.
- viii. Mae gwaith cwmpasu'n parhau ar y tri maes gwella â blaenoriaeth (dementia, plant sy'n derbyn gofal a gofal a chymorth yn y cartref). Rhoddodd Sarah McCarty ddiweddariad cryno o'i chyfarfodydd â rhanddeiliaid cenedlaethol amrywiol, a nododd bod yr angen am wybodaeth gliriach am yr hyn sy'n digwydd yn datblygu'n thema allweddol. Cynigiwyd bod datblygu tudalen ar-lein i rannu arferion newydd a phwysig yn rhywbeth i'w groesawu.
- ix. Rhoddodd Gerry Evans y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ymchwil a gwybodaeth, gan nodi bod rhaglen waith wedi'i chytuno gyda'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) a fydd yn cyflenwi 'gofal cymdeithasol ar-lein' – gan gynnig enghreifftiau o arferion gorau ar flaenau bysedd pob gweithiwr gofal cymdeithasol.
- x. Nododd yr Aelodau fod y contract gydag Uned Ddata Llywodraeth Leol ar gyfer datblygu set ddata gofal cymdeithasol genedlaethol ar gyfer Cymru wedi'i lofnodi a bod gwaith eisoes wedi cychwyn ar y set ddata. Bydd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ymchwil a Datblygu i Gymru a ddatblygwyd gydag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Prifysgol Abertawe ac Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf.
- xi. Yn dilyn ymholiad, cadarnhaodd Gerry Evans y bydd cysylltiad â WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) a bydd data o adroddiadau amrywiol yn cael ei ddefnyddio i gyfuno'r holl wybodaeth mewn un lle sy'n hygyrch i bawb.
- xii. Daeth y Cadeirydd â'r eitem i ben trwy nodi'r ffaith y bydd Cynhadledd Genedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei chynnal rhwng 27 a 29 Mehefin. Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r prif noddwr a bydd yn lansio'r gwobrau gofal cymdeithasol yn y digwyddiad. Nododd yr Aelodau y bydd tri o aelodau'r Bwrdd yn mynychu'r gynhadledd ac yn rhoi adborth ar eu profiadau yng nghyfarfod nesa'r Bwrdd. Hefyd, nodwyd y bydd Gerry Evans yn siarad mewn cynhadledd ar ddementia ar 11 Gorffennaf ac y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn bresennol yn Sioe Fawr Llanellwedd ym mis Gorffennaf ac yna Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn fis Awst.
- xiii. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod corff newydd Addysg Iechyd Cymru wedi'i sefydlu er mwyn arwain gwaith comisiynu a datblygu hyfforddiant ar gyfer y sector iechyd, a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol gweld sut mae'r cysylltiadau â'r sector gofal cymdeithasol yn datblygu.

9. Effeithiolrwydd y cyfarfod

- i. Cytunodd yr Aelodau fod y papurau'n glir a'u bod wedi derbyn y wybodaeth yr oeddent yn ei disgwyl. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr aelodau'n teimlo eu bod nhw'n gallu cyfrannu at y trafodaethau, ac roedd pawb yn cytuno eu bod.
- ii. Hefyd, nododd yr Aelodau fod y penderfyniad i drafod y ddogfen ymgynghori eto fel Bwrdd yn galonogol, a bod y cyflwyniad seminar ar risgiau yn hynod ddefnyddiol.
- iii. Dywedodd aelod arall fod cael dau gyfarfod ar yr un diwrnod yn ddefnydd effeithlon o amser.

10. Neges i'w chyfleu

- i. Ni amlinellwyd unrhyw negeseuon ychwanegol i'w chyfleu, gyda'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â'r broses ymgynghori a digwyddiadau'r haf.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf:

13 Gorffennaf 2017 am 11 y bore.